



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Y Panel Sicrhau Ansawdd

ADRODDIAD BLYNYDDOL
2024-2025

Panel Sicrhau Ansawdd – Adroddiad Cryno 2024

Mae'r panel sicrhau ansawdd yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal safonau uchel o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, tryloywder ac atebolrwydd. Gan weithredu'n annibynnol ar ran cymunedau lleol, mae'r panel yn craffu ar amrywiaeth o ryngweithiadau rheng flaen yr heddlu, gan gynnwys achosion stopio a chwilio, defnyddio grym, stelcio ac aflonyddu, a digwyddiadau sy'n ymwneud â phlant ac unigolion sy'n agored i niwed.

Mae'r panel sicrhau ansawdd yn darparu goruchwyliaeth annibynnol ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd. Drwy adolygu achosion go iawn ac annog adborth adeiladol, mae'r panel yn cyfrannu'n uniongyrchol at welliannau mewn gweithdrefnau heddlu, goruchwyliaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'r mewnwelediadau a gynhyrchwyd yn ystod 2024 wedi dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant ac addasiadau gweithredol ar draws yr heddlu, gan atgyfnerthu'r ymrwymiad i ddysgu parhaus a gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Ffrydiau gwaith allweddol a adolygwyd yn 2024

1. Stopio a chwilio (Mai 2024)

- Adolygwyd chwe achos, gan gynnwys oedolion, pobl ifanc, ac unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Canfyddiad cadarnhaol: Bod plismona yn broffesiynol ac yn gyfreithlon ar y cyfan.
- Pryderon: Anghywirdeb ffurflenni (oherwydd system newydd Niche), cofnodion log anghyflawn, defnyddio meysydd chwilio amhriodol (e.e. arogl cannabis yn unig).
- Canlyniad: Cafodd swyddogion adborth; gwellwyd goruchwyliaeth ffurflenni; hyfforddiant gwell ar y system Niche ar waith.

2. Defnyddio grym (Gorffennaf 2024)

- Adolygwyd pum achos, yn cwmpasu digwyddiadau oedolion a phobl ifanc.
- Canfyddiad cadarnhaol: Mae defnyddio grym yn gyfiawn ac yn gymesur ar y cyfan.
- Pryderon: Ffurflenni cyfiawnhad wedi'u cwblhau'n wael, goruchwyliaeth oruchwyliol yn gyfyngedig, risgiau diogelwch wrth gludo i'r ddalfa.
- Canlyniad: Mae system dangosfwrdd newydd yn cael ei gweithredu i adfer goruchwyliaeth ansawdd yn dilyn y newid i Niche. Atgoffir swyddogion am brotocolau cludo diogel a defnyddio gefynnau.

3. Stelcio ac aflonyddu (Awst 2024)

- Adolygwyd tri achos cymhleth, pob un yn cynnwys tystiolaeth helaeth gan gamera corff.
- Canfyddiad cadarnhaol: Dangoswyd empathi a diogelu dioddefwyr yn gryf gan swyddogion.

- Pryderon: Opsiynau trefn sifil heb eu trafod yn rheolaidd; defnyddio technoleg a dyfeisiau symudol yn llesteirio ymgysylltiad; cyflwyniad swyddogion anghyson mewn amgylcheddau rhithwir.
- Canlyniad: Materion yn cael eu trafod mewn pecyn hyfforddi ar gam-drin domestig sydd ar ddod (bwriedir ei gyflwyno ym mis Ionawr 2025); canllawiau cliriach wedi'u cyhoeddi ar ymddygiad swyddogion yn ystod cyfweiliadau rhithwir.

4. Llais y plentyn (Tachwedd 2024)

- Adolygwyd pedwar achos, yn canolbwyntio ar sut y cofnodwyd llais y plentyn a sut y gweithredwyd arno.
- Canfyddiad cadarnhaol: Gwelwyd rhai ymatebion sensitif ac amserol.
- Pryderon: Lleisiau uniongyrchol plant heb eu cofnodi bob amser; hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd heb eu cyflwyno'n gyson; adborth dioddefwyr yn brin; gofynion gweinyddol yn effeithio ar swyddogion.
- Canlyniad: Adborth wedi'i rannu ag adrannau; ymdrechion ar y gweill i wella ymgysylltu uniongyrchol â phlant ac arferion dogfennu.

5. Llwybrau Newydd (Ionawr 2025)

- Craffwyd ar bedwar achos (dau oedolyn, dau blentyn) gan y panel, wrth asesu perfformiad cynghorwyr annibynnol ar ymosodiadau rhywiol a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gefnogi dioddefwyr camdriniaeth rywiol.
- Canfyddiadau cadarnhaol: Ymgysylltiad cryf â dioddefwyr, yn enwedig mewn achosion cymhleth, cynnwys cynghorwyr annibynnol ar ymosodiadau rhywiol yn amserol, a gofal amlwg wrth weithio gyda phlant ac unigolion niwroamrywiol.
- Pryderon: Amrywiaeth mewn cofnodi achosion gan y cynghorwyr annibynnol ar ymosodiadau rhywiol a diffyg safoni; oedi wrth gofnodi swyddogion achosion, a oedd yn effeithio ar brofiadau dioddefwyr; a methiannau cyfathrebu rhwng heddluoedd, gan arwain at oedi wrth gefnogi a risg o ddatgysylltu.
- Canlyniad: Argymhellion ar gyfer gwell cyfathrebu â'r heddlu, goruchwyliaeth oruchwyliol gryfach, a mwy o eglurder mewn prosesau atgyfeirio.

Datblygu'r panel ac arweinyddiaeth

Wrth baratoi ar gyfer 2025, etholwyd Claire Pritchard yn Gadeirydd y Panel Sicrhau Ansawdd. Etholwyd Malcolm Macdonald yn ddirprwy gadeirydd i sicrhau parhad a gwydnwch yn yr arweinyddiaeth. Bydd y penodiadau hyn yn cynnal dull strwythuredig a chysn o weithgareddau'r panel sicrhau ansawdd drwy gydol y flwyddyn.

Effaith gwaith craffu y panel sicrhau ansawdd

Arweiniodd gwaith craffu y panel sicrhau ansawdd yn 2024 at y canlynol:

- Gwelliannau hyfforddiant (e.e. cam-drin domestig, adrodd ar ddefnyddio grym).
- Cywirdeb data gwell yn dilyn trawsnewid yr heddlu i systemau newydd.
- Cododd safonau mewn proffesiynoldeb swyddogion, gofal dioddefwyr a dogfennaeth.
- Dolenni adborth adeiladol rhwng gwirfoddolwyr ac adrannau heddlu.

Edrych ymlaen

Bydd y panel sicrhau ansawdd yn parhau i wasanaethu fel llais i'r gymuned, gan nodi meysydd i'w dysgu a'u gwella, a gweithio ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys i wella hyder y cyhoedd a darpariaeth gwasanaethau.

Yn y flwyddyn nesaf, bydd y panel yn canolbwyntio ei waith craffu ar feysydd allweddol sy'n peri pryder i'r cyhoedd, gan gynnwys arferion stopio a chwilio, defnyddio grym, a thrin achosion stelcio ac aflonyddu, gan sicrhau bod pob un yn cael ei adolygu'n drylwyr ac yn dryloyw i hyrwyddo arferion gorau ac atebolrwydd.